

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Casglu a Rheoli
Trethi (Cymru)**

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddMCD@cynulliad.cymru
Twitter: [@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Casglu a Rheoli
Trethi (Cymru)**

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, ac i ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Alun Davies

Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



William Powell

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Dafydd Elis-Thomas

Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	6
Cylch gwaith y Pwyllgor	6
Cyflwyno'r Bil a'i drafod	6
2. Cefndir.....	7
Diben y Bil	7
3. Cymhwysedd Deddfwriaethol	8
Memorandwm Esboniadol	8
Tystiolaeth gan y Gweinidog ar gymhwysedd deddfwriaethol.....	8
Ystyried hawliau dynol.....	8
Tystiolaeth gan y Gweinidog ar hawliau dynol	9
Ein barn ni.....	10
4. Sylwadau cyffredinol	11
5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	12
Cefndir.....	12
Rhan 2 - Awdurdod Cyllid Cymru	12
Adran 3 - Aelodaeth.....	12
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	12
Ein barn ni.....	12
Adran 4 - Anghymhwyso rhag penodiad fel aelod anweithredol ..	13
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	13
Ein barn ni.....	13
Adran 26 - Cynllun corfforaethol.....	14
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	14
Ein barn ni.....	14
Rhan 10 – Darpariaethau Terfynol.....	15
Adran 186 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.	15
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	15

Ein barn ni..... 15

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 3 o'r Bil fel bod unrhyw newidiadau i aelodaeth ACC yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol. (Tudalen 12)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir yn unol ag adran 4 sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o ACC. (Tudalen 13)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 26 fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i newidiadau i gyfnodau cynllunio ACC. (Tudalen 14)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 186 fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol. (Tudalen 16)

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â hwy.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad ac ym Miliau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

Cyflwyno'r Bil a'i drafod

4. Ar 13 Gorffennaf 2015, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt AC ("y Gweinidog"), y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ("y Bil"), y Memorandwm Esboniadol¹ cysylltiedig a'r Datganiad o Fwriad y Polisi.
5. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y Bil at y Pwyllgor Cyllid i'w ystyried, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 27 Tachwedd 2015.
6. Trafodwyd y Bil yn ein cyfarfod ar 28 Medi 2015, pryd y cafwyd tystiolaeth gan y Gweinidog.

¹ Llywodraeth Cymru, y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, 13 Gorffennaf 2015

2. Cefndir

Diben y Bil

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai dyma'r cyntaf o dri bil arfaethedig i sefydlu trefniadau trethi datganoledig yng Nghymru. Cyflwynir deddfwriaeth treth benodol yn dilyn y Bil er mwyn sefydlu dwy dreth Gymreig newydd, sef Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'n dweud hefyd y bydd angen ystyried darpariaethau'r Bil fel rhan o'r pecyn deddfwriaethol ehangach.²

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai diben y Bil yw "cyflwyno'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol".³

"Yn benodol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer:

- sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a'i brif waith fydd casglu a rheoli trethi datganoledig;
- rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC (a dyletswyddau a hawliau cyfatebol ar drethdalwyr ac eraill) mewn perthynas â dychwelyd ffurflenni treth a chynnal ymchwiliadau ac asesiadau i alluogi ACC i nodi a chasglu swm priodol o drethi datganoledig sy'n ddyledus gan drethdalwyr;
- pwerau ymchwilio a gorfodi sifil cynhwysfawr, gan gynnwys pwerau sy'n galluogi ACC i ofyn am wybodaeth a dogfennau ac i asesu ac archwilio mangreoedd ac eiddo arall;
- dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog dan rai amgylchiadau;
- hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath;
- cyflwyno pwerau gorfodi troseddol i ACC."⁴

² Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Memorandwm Esboniadol

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol o dan y penawdau canlynol yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*:

14 Gweinyddiaeth gyhoeddus

16A Trethi⁵

10. Mewnosodwyd pennawd 16A yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* gan *Ddeddf Cymru 2014*.⁶

11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi hefyd fod Rhan 4A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu'r cymhwysedd deddfwriaethol fel bod y Cynulliad yn gallu gwneud darpariaeth i benodi staff corff a sefydlwyd i gasglu a rheoli trethi datganoledig fel gweision sifil.⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog ar gymhwysedd deddfwriaethol

12. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn fodlon fod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.⁸

Ystyried hawliau dynol

13. Mae nifer o adrannau yn y Bil lle yr oeddem am fodloni ein hunain bod y Gweinidog wedi ystyried yr effaith ar hawliau dynol yn llawn.

14. Yn benodol, roeddem am archwilio adrannau 17 (Datgelu a ganiateir) a 170 (Penderfyniadau apeladwy); a Rhan 9 (Ymchwilio i droseddau). Gwnaethom drafod y materion hyn gyda'r Gweinidog.

15. Mae adran 17(1) yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir datgelu gwybodaeth warchoddedig am drethdalwyr. Mae adran 17(2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio isadran (1) drwy reoliadau.

⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 5

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8

⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7

⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [5]

16. Mae adran 170 yn nodi'r penderfyniadau gan ACC sy'n apeladwy a'r rhai nad ydynt yn apeladwy.

17. Mae Rhan 9 o'r Bil yn ymwneud ag ymchwilio i droseddau.

Tystiolaeth gan y Gweinidog ar hawliau dynol

18. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“...I've received advice on compatibility with the European convention on human rights, and I'm satisfied the Bill is compatible.”⁹

19. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 17, oherwydd ei bod:

"Yn ymwneud â'r drosedd o ddatgelu ar gam wybodaeth warchoddedig am drethdalwyr a'r amgylchiadau cyfyngedig lle caniateir datgelu gwybodaeth o'r fath, a allai gael effaith sylweddol ar hawliau dynol trethdalwyr."¹⁰

20. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y darpariaethau'n unol â deddfwriaeth bresennol y DU a'r Alban.¹¹ Tynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod y darpariaethau yn y Bil yn mynd ymhellach na deddfwriaeth bresennol y DU. Gwnaed hynny er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hynny'n gliriach na'r hyn a geir yn y ddeddfwriaeth bresennol.¹²

21. Cadarnhaodd y Gweinidog fod adran 170 yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.¹³

22. O ran Rhan 9, gwnaethom holi'r Gweinidog a fyddai'r pwerau gwneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu pwerau ymchwilio newydd, a allai arwain at ystyriaethau pellach o ran hawliau dynol.

⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [25]

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, Tabl A, Tudalen 23

¹¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [25]

¹² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [26]

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [70]

23. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru na fyddai hynny'n digwydd:

“That wouldn’t be possible with the set-up that we have because section 183 will amend the Police and Criminal Evidence Act and it will allow the Welsh Ministers to apply whichever of the powers are set out in that Act to WRA officers. So, they’ll be plugging in to a familiar, consistent framework for criminal investigation powers that already operates throughout England and Wales, which is ECHR-proof, and it goes with codes, for example, that say how things should operate. So, it’s basically plugging in to something that already exists and that people know and are familiar with, rather than building something completely new in this Act.”¹⁴

Ein barn ni

24. Nodwn farn y Gweinidog ynghylch gallu'r Cynulliad i wneud y ddeddfwriaeth hon.

25. Rydym yn fodlon bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i sicrhau bod y Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

¹⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [81]

4. Sylwadau cyffredinol

26. Dyma'r Bil olaf yr ydym yn disgwyl ei drafod yn ystod y Cynulliad hwn. Mae'n hynod o siomedig felly fod y Bil hwn yn cynnwys enghreifftiau o arferion deddfwriaethol sy'n wael yn ein barn ni a rhai yr ydym wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt o hyd ac o hyd yn ystod y Cynulliad hwn.

27. Mae sawl enghraifft yn y Bil lle y mae'r Llywodraeth yn cynnig defnyddio'r weithdrefn negyddol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Byddwn yn ymdrin â phob adran unigol yn y bennod nesaf.

28. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio'r pwynt sylfaenol, ehangach sy'n gymwys i'r holl ddeddfwriaeth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Dylid cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol pan fo deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio. Mae hynny'n galluogi'r Cynulliad cyfan i drafod y newidiadau arfaethedig a phleidleisio arnynt. Gan fod deddfwriaeth sylfaenol yn destun proses graffu a phedwar cam iddi, sy'n cynnwys yr holl Aelodau, dylai'r Cynulliad cyfan hefyd ystyried unrhyw newid a wneir drwy reoliadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, ac felly dylai fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

29. Am resymau nad ydynt yn glir, nid yw Llywodraeth Cymru bob amser yn derbyn yr egwyddor hon ac mae'n cynnig defnyddio'r weithdrefn negyddol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn rheolaidd, mewn achosion sy'n 'dechnegol' neu'n 'weinyddol' ym marn y Llywodraeth. Gan fod y penderfyniad a yw mater yn un technegol neu weinyddol yn oddrychol, rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i dderbyn yr egwyddor sylfaenol llawer cliriach a argymhellir gennym ni.

30. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl bod cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol wrth basio rheoliadau yn arwain at oedi os yw'r rheoliadau hynny wir yn rhai gweinyddol a / neu dechnegol. Credwn yn gryf mai lle'r ddeddfwrfa yw gwneud y penderfyniad hwnnw, nid y weithrediaeth.

31. Rydym wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ynghylch y mater pwysig hwn¹⁵, ac rydym yn disgwyl dychwelyd ato yn ein gwaith etifeddiaeth.

¹⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: [Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Brif Weinidog Cymru](#). Hydref 2015

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Cefndir

32. Mae'r Bil yn cynnwys 27 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Gorchmynion, ac mae pump ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae un pŵer cyfarwyddo nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.

33. Yn gyffredinol, credwn fod y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn gywir. Felly, mae ein sylwadau'n ymwneud â'r adrannau hynny y mae gennym awgrymiadau ac argymhellion penodol yn eu cylch yn unig.

Rhan 2 - Awdurdod Cyllid Cymru

Adran 3 - Aelodaeth

34. Mae adran 3 yn nodi aelodau Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae adran 3(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio nifer aelodau ACC drwy'r weithdrefn negyddol. Byddai hyn yn cynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol, ac fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, teimla'r Pwyllgor y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol wrth ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

35. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y weithdrefn negyddol yn briodol gan mai dim ond at 'ddibenion gweinyddol' y câi'r pŵer ei ddefnyddio.¹⁶

Ein barn ni

36. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn darparu ar gyfer rhwng chwech a 12 aelod, sydd eisoes yn eithaf eang. Fel yr ydym wedi ei nodi yn hynod o glir, credwn yn gryf y dylai unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol gael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 3 o'r Bil fel bod unrhyw newidiadau i aelodaeth ACC yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [15]

Adran 4 - Anghymhwyso rhag penodiad fel aelod anweithredol

37. Mae adran 4 yn nodi'r swyddi sy'n golygu bod person wedi ei anghymhwyso rhag ei benodi yn aelod anweithredol o ACC. Mae adran 4(k) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi rhagor o ddeiliad swydd, aelodau neu aelodau o staff corff y gellir eu hanghymhwyso. Mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys oherwydd y gall y swyddi ychwanegol sy'n anghymhwyso person gael eu 'diweddarau o dro i dro'.¹⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

38. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch a oedd y weithdrefn negyddol yn briodol, roedd ei hymateb yn ymddangos yn anghyson. Dywedodd:

“This is really only going to be used, this power if we should add in that way to a list, as that would be a significant change of circumstance. I think, in the overall legislative scheme, this would be a relatively minor amendment.”¹⁸

Ein barn ni

39. Yn ein barn ni, mae rhywbeth naill ai'n arwyddocaol, 'significant', neu'n ddibwys, 'minor', ac ni all fod yn arwyddocaol ac yn ddibwys ar yr un pryd.

40. Fel y gwnaethom nodi ynghylch Bil¹⁹ yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), credwn fod y weithred o anghymhwyso person yn fater pwysig y dylai'r Cynulliad ei drafod.

41. Credwn felly y dylai'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir yn unol ag adran 4 sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o ACC.

¹⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 24

¹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [17]

¹⁹ [Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\)](#)

Adran 26 - Cynllun corfforaethol

42. Mae adran 26 yn darparu bod yn rhaid i ACC baratoi cynllun corfforaethol. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliad i nodi hyd y cyfnod cynllunio cyntaf. Mae'r Bil yn nodi mai tair blynedd yw pob cyfnod ar ôl y cyfnod cynllunio cyntaf. Mae adran 26(8) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau roi unrhyw gyfnod arall sy'n briodol yn eu barn hwy yn lle'r cyfnod hwn o dair blynedd. Mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys oherwydd ei bod yn 'rhagnodi mater gweinyddol'.²⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

43. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y rhesymau dros gymhwyso'r weithdrefn negyddol i orchymyn a fyddai'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, dywedodd wrthym na fyddai'n cael ei defnyddio oni bai fod rhesymau cryf iawn dros ddiwygio'r deddfwriaeth. Ychwanegodd:

“So, we believe that the negative procedure is appropriate because, whilst primary legislation will be amended, the power does relate to an administrative matter...”²¹

Ein barn ni

44. Credwn fod addasu hyd y cyfnod cynllunio corfforaethol yn fater arwyddocaol y dylai'r Cynulliad graffu arno ac felly y dylai fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

45. At hynny, fel y nodwyd eisoes, nid ydym yn derbyn y ddadl bod y weithdrefn negyddol yn briodol os yw'r mater yn un 'gweinyddol'. Pan fo deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio, dylid cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 26 fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i newidiadau i gyfnodau cynllunio ACC.

²⁰ Memorandwm Esboniadol, tudalen 25

²¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [30]

Rhan 10 – Darpariaethau Terfynol

Adran 186 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.

46. Mae adran 186 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio unrhyw ddeddfiad drwy reoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

47. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y weithdrefn negyddol yn gymwys oherwydd:

“...it would only be used for matters like making changes to other legislation needed as a consequence of the provision of this Bill, or to deal with any unforeseen details that arise out of implementation of the new system.....but it’s very limited, how this power could be used.”²²

48. Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud na fyddai'n gwneud unrhyw newid sylweddol i ddeddfwriaeth, a bod lefel briodol o waith craffu yn cael ei gwneud ar y pŵer ar y cam hwn. Felly, nid oedd angen cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol.²³

49. Mewn gohebiaeth bellach â'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Gweinidog ei barn hi fod cwmpas cyfyngedig y ddarpariaeth yn golygu bod y weithdrefn negyddol yn briodol.²⁴

50. Nododd hefyd fod y Memorandwm Esboniadol yn anghywir ynghylch y ddarpariaeth hon, ac y byddai'n cael ei diwygio ar ôl Cyfnod 2.²⁵

Ein barn ni

51. Yn unol â'n hegwyddorion cyffredinol, credwn y dylid cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i unrhyw bwerau a allai ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Oherwydd y gellid defnyddio'r darpariaethau hyn i ddiwygio

²² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [91]

²³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 28 Medi 2015, Cofnod y Trafodion [96]

²⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 19 Hydref 2015, [CLA\(4\)-26-15 Papur 5 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch y Bil Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\)](#)

²⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 19 Hydref 2015, [CLA\(4\)-26-15 Papur 5 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch y Bil Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\)](#)

deddfwriaeth sylfaenol, credwn y dylid cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 186 fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol.